


Sandrena[®]

(estradiol hemihydrad)

SUT I DDEFNYDDIO GEL SANDRENA[®]

- Dilynwch gyfarwyddiadau eich proffesiynol gofal iechyd ynghylch y dos bob amser, a chyfeiriwch at y daflen wybodaeth i gleifion am ragor o wybodaeth.
- Storiwch y gel ar dymheredd ystafell (o dan 25°C).



CAM 1

Rhwygwch y sachet ar agor.




CAM 2

- Rhowch y gel ar groen glân a sych ar eich corff isaf neu ar eich cluniau bob yn ail ddiwrnod.
- Dylai arwynebedd y safle cymhwyso fod 1-2 gwaith maint llaw.
- Mae'r gel at ddefnydd trawsdermol (h.y. i'w gymhwyso ar y croen) yn unig.




CAM 3

- Ar ôl ei roi, gadewch i'r gel sychu am ychydig funudau.
- Golchwch ddwylo gyda sebon a dŵr ar ôl ei roi.



CAM 4

- Ni ddylid golchi'r safle o fewn 1 awr.
- Os disgwylir cyswllt croen â pherson arall neu anifail anwes, gorchuddiwch y safle cymhwyso â dillad ar ôl i'r gel sychu, neu cymerwch gawod cyn unrhyw gyswllt croen posibl.



- Dylid cymhwyso gel Sandrena[®] ar eich corff isaf neu ar eich cluniau yn unig.
- Ni ddylid rhoi'r gel ar y bronau, yr organau cenedlu, ar yr wyneb, na chroen llidus.
- Osgowch i'r gel ddod i gysylltiad â'r llygaid.



- Osgowch gyswllt croen-i-groen uniongyrchol rhwng y safle cymhwyso a phobl neu anifeiliaid anwes, yn enwedig plant.
- Os bydd person neu anifail anwes yn cyffwrdd â'r safle cymhwyso ar ddamwain, golchwch yr ardal o groen â sebon a dŵr ar unwaith.
- Os daw plentyn i gysylltiad â'r ardal, gall estradiol drosglwyddo a gallai achosi arwyddion annisgwyl o glasod (megis datblygiad y fron). Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y symptomau hyn yn diflannu pan na fydd y plentyn bellach yn cael ei amlygu i Sandrena[®].

Os cewch unrhyw sgil-ffeithiau, siaradwch â'ch meddyg, fferyllydd neu nyrs. Mae hyn yn cynnwys unrhyw sgil-ffeithiau posibl nad ydynt wedi'u rhestru yn y daflen becyn. Gallwch hefyd roi gwybod am sgil-ffeithiau yn uniongyrchol drwy Gynllun y Cerdyn Melyn yn www.mhra.gov.uk/yellowcard

Drwy roi gwybod am sgil-ffeithiau, gallwch helpu i ddarparu mwy o wybodaeth am ddiogelwch y feddyginiaeth hon.

Orion Pharma (UK) Ltd

The Blade, Abbey Square, Reading,
Berks, RG1 3BE

Chwefror 2026/MAT-GB-DIV-012026-0050

**ORION
PHARMA**